

Arweinwyr Teithiau Treftadaeth y Byd Nodiadau Canllaw i Athrawon

Amcanion Dysgu

- Ymchwilio'r ystod o wahanol fathau o Safleoedd Treftadaeth y Byd, eu lleoliad, eu nodweddion arbennig a'u pwysigrwydd
- Deall y mathau o gynulleidfaoedd a'r ffyrdd o deilwra gwybodaeth i'r gynulleidfa
- Datblygu sgiliau siarad a gwrando a chymhwysedd digidol

Adnoddau

- [Dolen gwefan UNESCO](#)
- Awgrymiadau arweinydd teithiau
- Taflen werthuso

Cyfarwyddiadau Gweithgaredd

Mae'r dysgwyr yn derbyn briff i gyflwyno syniadau teithiau ar gyfer eu hoff Safleoedd Treftadaeth y Byd fel eu bod yn rhedeg cwmni teithiau eu hunain. Bydd pob cwmni yn cyflwyno eu teithiau i'r dosbarth a bydd y dysgwyr yn gwerthuso a dewis eu hoff daith. I wneud hyn, maent yn derbyn rôl 'Mantell yr Arbenigwr' ac yn dod yn arbenigwyr trefnu teithiau.



Eglurhad o fantell yr arbenigwr:

"Nid yw Mantell yr Arbenigwr yn golygu fod y myfyrwyr yn derbyn arbenigedd drwy ryw ryfedd wyrth hudol. Yn y byd go-iawn maent yn blant o hyd. Dim ond o fewn ffuglen y maent yn gweithredu 'fel pe baent' yn arbenigwyr. Hynny yw eu bod yn defnyddio pwerau a chyfrifoldebau tîm o arbenigwyr, gan weithio ar aseiniadau pwysig, gan ganolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig iddynt, a theimlo'n falch o'u statws".
I gael rhagor o wybodaeth ewch i: www.mantleoftheexpert.com/what-is-moe/how-does-moe-work/

Syniadau Gweithgareddau Cychwynnol:

Trafod: Beth yw arweinydd teithiau a beth sy'n gwneud cwmni trefnu teithiau da?

Gwylwch ffilmiau sy'n hyrwyddo Safleoedd Treftadaeth y Byd i gael syniadau - chwiliwch am deithiau rhithiol Safleoedd Treftadaeth y Byd e.e. <https://smartours.com/unesco-world-heritage-sites-virtual-tour/>

Darllen awgrymiadau arweinydd teithiau.



Briff ar gyfer Dysgwyr:

- Dewis cynulleidfa ar gyfer y daith e.e. teuluoedd, plant ysgol, oedolion
- Dewis 3 i 5 o'ch hoff Safleoedd Treftadaeth y Byd. Mae'n rhaid i Draphont Dd r a Chamlas Pontcysyllte fod yn un o'r rhain.
- Datblygu eich taith. Dylai'r daith gynnwys:
 - Nodweddion arbennig pob safle a ddewiswyd
 - Ffeithiau diddorol am bob safle a ddewiswyd
 - Ble mae'r safleoedd a'u lleoliad ar fap y byd
- Dewis darluniau priodol i gynrychioli'r safleoedd.
- Dewis dull o gyflwyno eich taith e.e. PowerPoint neu arddangosiad gweledol.
- Dewis enw a dylunio logo ar gyfer y cwmni.
- Dewis ffordd o farchnata eich taith e.e. taflen / tudalen we / ffilm fer.
- Cyflwyno eich taith i weddill y dosbarth.
- Gwerthuso teithiau eich gilydd gan ddefnyddio'r daflen werthuso a dewis hoff daith.



Syniadau Gweithgareddau Eraill:

- Ysgrifennu erthygl ar gyfer blog teithio yn seiliedig ar hoff daith y dysgwr.
- Dadansoddi'r data a gasglwyd o'r ffurflenni gwerthuso a'u cyflwyno mewn graff neu dabl. Beth mae'r canlyniadau yn eu dangos?



Awgrym: Os yw dysgwyr yn gweithio fel gr p gallai pob dysgwr dderbyn rôl benodol yn y cwmni e.e. ymchwilydd, dylunydd, rheolwr marchnata, arweinydd teithiau.

Awgrymiadau Arweinydd Teithiau

Dyma rai o'r awgrymiadau a roddwyd i ni gan arweinydd teithiau.
Mae'r arweinydd teithiau gorau yn frwdfrydig, yn ymgysylltu, yn wybodus ac yn drefnus.

Cynnwys eich taith

Adnabod eich cynulleidfa:

- Ydych chi'n siarad â theuluoedd, disgyblion ysgol neu oedolion?
- Beth ydych eisiau ei ddysgu iddynt?

Gwirio cynnwys:

- Mae'r teithiau gorau yn ddiddorol ac yn hwyl!
- Gwiriwch eich ffeithiau
- A oes straeon am bobl go-iawn?
- Pa ddelweddau fedrwch chi eu defnyddio?
- Sut allwch chi wneud y daith yn fwy diddorol?
- Gwneud nodiadau ac ymarfer eich taith



Cyfathrebu ac iaith y corff

- A all pawb glywed?
- Cofiwch beidio â siarad yn rhy gyflym!
- A all pawb eich gweld?
- Byddwch yn hyderus a cheisiwch beidio â gwingo!










Rhestr wirio derfynol


- Oes gennych chi eich nodiadau?
- Cofiwch groesawu pawb i'r daith
- Gwenwch a mwynhewch – os ydych chi'n mwynhau, bydd y gynulleidfa yn mwynhau hefyd!


Taflen Werthuso


Defnyddiwch y daflen hon i werthuso taith safle Treftadaeth y Byd a gyflwynwyd gan bob grŵp. Tic (☑) = 1 pwynt.

	 Nodweddion arbennig	 Lleoliad	 Elfennau Gweledol	 Ffeithiau	 Marchnata	 Ymgysylltiad (1isel - 5 uchel)	Sgôr allan o 10	Sylwadau ychwanegol
1	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>		
2	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>		
3	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>		
4	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>		
5	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>		
6	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>		


 Nodweddion arbennig: Ydi'r cwmni wedi tynnu sylw at nodweddion arbennig pob safle?

 Lleoliad: Ydi'r cwmni wedi egluro lleoliad y safleoedd?

 Ydi'r cwmni wedi defnyddio elfennau gweledol effeithiol?

 Ydi'r cwmni wedi defnyddio mwy nag un ffaith ddiddorol am bob safle?

 Ydi'r cwmni wedi marchnata eu taith yn effeithiol?

 Faint oedd y daith yn ymgysylltu â'r gynulleidfa? (1 ddim yn ymgysylltu'n dda i 5 yn ymgysylltu yn dda iawn) Ystyriwch y dull cyflwyno, yr elfennau gweledol a pha mor eglur oedd y cyflwyniad.